# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 5 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.01 - 15.36** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2671**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Peter Black AC (yn lle Kirsty Williams AC ar gyfer eitemau 1 i 5)** |
| Tystion: | **Dr Jean White, Prif Swyddog Nyrsio**<br>**Fiona Davies, Llywodraeth Cymru**<br>**Helen Whyley, Llywodraeth Cymru**<br>**Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Stephen Harrhy, Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans**<br>**Yr Athro Siobhan McClelland, Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys**<br>**Mick Giannasi, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**<br>**Tracy Myhill, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau** |

| | |
|---|---|
| | **Ambiwlans Cymru**<br>**Alison Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**<br>**Adam Cairns, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)**<br>**Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Amy Clifton (Ymchwilydd)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Sian Thomas (Ymchwilydd)** |

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Janet Finch-Saunders.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams. Dirprwyodd Peter Black ar ran Kirsty Williams AC ar gyfer yr eitemau'n ymwneud â'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).
1.3 Nododd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Pwyllgor i Kirsty Williams, a oedd yn absennol o'r cyfarfod oherwydd salwch. Cytunodd y Pwyllgor i drefnu dyddiad amgen er mwyn i Kirsty Williams roi tystiolaeth fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Lefelau Diogel Staffio Nyrsio (Cymru).

## 2 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): sesiwn dystiolaeth 12

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

## 3 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): sesiwn dystiolaeth 13

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.
3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor am ei bwerau cyfarwyddo o dan Adran 12 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 6 ac 11 o'r cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Blaenraglen waith y Pwyllgor.

6.1 Bu’r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i drefnu rhagor o sesiynau tystiolaeth ar y Bil Lefelau Diogel Staffio Nyrsio (Cymru), gan gynnwys sesiwn gyda Kirsty Williams, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, ar 19 Mawrth 2015.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor ar ddull ar gyfer casglu tystiolaeth lafar mewn perthynas â gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

6.4 Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith amlinellol o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2015, yn amodol ar drafod ymhellach cais y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ohirio sesiwn gwaith craffu cyffredinol ac ariannol yr haf tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6.5 Nododd yr Aelodau y flaenraglen waith amlinellol ar gyfer gweddill y Pedwerydd Cynulliad, a chytuno i ohirio penderfyniad ynghylch y blaenoriaethau a nodwyd ganddynt yn flaenorol.

## 7 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 1

7.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

7.2 Cytunodd y tystion i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- copi o'r cytundeb dros dro gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer 2014-15;
- syniad bras o'r amserlenni ar gyfer y fframwaith comisiynu, ansawdd a darparu ac, unwaith y bydd yn barod, copi o'r fframwaith.

## 8 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 2

8.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

8.2 Cytunodd y tystion i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- manylion am y cynlluniau peilot sydd ar waith ledled Cymru i wella gwasanaethau ambiwlans;
- nifer y galwadau brys Categori A a wnaed yn 2012 , 2013 a 2014, nifer y digwyddiadau y mae'r galwadau hyn yn ymwneud â nhw, nifer y galwadau lle cyrhaeddodd y gwasanaethau brys y digwyddiad, a nifer y galwadau lle cyrhaeddodd y gwasanaethau brys y digwyddiad o fewn wyth munud;

- y dyddiadau y cafodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei hymgynghori neu ei chynnwys yn y penderfyniad a wnaed i atal gofal mamolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd; a
- chopi o gynllun gweithredu ar gyfer gwella Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## 9 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 3

9.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

9.2 Cytunodd y tystion i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- manylion ar gyfer y mis diwethaf (Chwefror 2015) am nifer yr ambiwlansys a gyrhaeddodd pob adran damweiniau ac achosion brys yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ac, os yw'n bosibl, yr orsaf ambiwlansys lle y mae pob un o'r ambiwlansys hynny wedi'u lleoli;
- manylion am nifer y cleifion sy'n profi oedi wrth gael eu trosglwyddo yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- manylion am y camau gweithredu y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn eu cymryd i leihau oedi wrth drosglwyddo cleifion, y gwelliannau y disgwylir eu cyflawni, a'r amserlenni cysylltiedig; a
- chopi o'r adroddiad ar yr ymchwiliad i brofiadau o ran gofal heb ei drefnu ym mhob bwrdd iechyd lleol, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2015.

## 10 Papurau i'w nodi:

10.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau: P-04-625 Cefnogaeth i Fil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

10.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

10.2 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): Crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd gan ymgyrch y Coleg Nyrsio Brenhinol

10.2a Nododd y Pwyllgor y crynodeb o'r dystiolaeth.

## 11 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

11.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd.